# Llwybr Arfordir Gŵyr - Gorllewin




Cyhoeddwyd gan Gyngor Abertawe © Hawlfraint, Gorffennaf 2022

Roedd yr wybodaeth yn gywir wrth fynd i'r wasg, Gorffennaf 2022

© Hawlfraint y Goron [a hawliau cronfa ddata] [2022] AO [100023509]. Arolwg Ordnans [100023509].

## Cynllunio'ch taith

Hyd Llwybr yr Arfordir o'r Mwmbwls i Crofty yw 38 milltir. Felly, dylech ganiatáu o leiaf 2 ddiwrnod i gerdded y llwybr cyfan (oni bai eich bod yn hynod ffit!). I fwynhau Llwybr yr Arfordir, does dim rhaid ei gerdded i gyd ar unwaith - gallwch gael profiad arfordirol tebyg drwy gerdded rhannau ohono'n unig.

Mae llawer o Lwybr yr Arfordir yn golygu cerdded dros dir garw, grisiau, llethrau serth ac weithiau gamfeydd. Fodd bynnag, ceir rhannau sy'n addas i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn a'r llai abl (e.e. promenâd Bae Abertawe), a rhai y gall beicwyr a marchogion eu mwynhau.

Y llwybrau porffor a gwyrdd a welir ar y map yw'r llwybrau cyfreithlon, sef porffor ar gyfer y llwybr cyhoeddus a gwyrdd ar gyfer llwybrau ceffyl. Gallwch ddefnyddio'r rhain i greu eich teithiau eich hunain yn seiliedig ar Lwybr yr Arfordir.

## Rhoi gwybod am broblemau

Os ydych yn cael unrhyw broblemau ar Lwybr yr Arfordir neu unrhyw lwybr arall, rhowch wybod i'r:

**Tîm Mynediad Cefn Gwlad**
www.abertawe.gov.uk/problemhawltramwy
✉ countryside.access@swansea.gov.uk

## Allwedd i lwybrau troed

- Llwybr yr arfordir
- Llwybrau troed cyhoeddus
- Llwybrau ceffyl cyhoeddus
- Llwybrau i'r traeth
- Llwybr i'r/o'r gorsafoedd trenau
- Tir mynediad
- Parcio




## Llwybr Arfordir Gŵyr

Mae rhan Gŵyr a Bae Abertawe o Lwybr Arfordir Cymru'n ymestyn o borthladd Abertawe a Glannau SA1 yn y dwyrain, o amgylch Bae Abertawe a Phenrhyn Gŵyr, i Gasllwchwr yn y gorllewin.

Mae Llwybr yr Arfordir o amgylch arfordir godidog Gŵyr, Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol gyntaf y DU, yn werth ei weld.

Darganfyddwch fwy am gerdded ym Mae Abertawe yn: **croesobaeabertawe.com/cerdded**

## Llety a gwybodaeth i ymwelwyr

Cewch fwy o wybodaeth am y cyfan sydd ei angen arnoch i gynllunio diwrnod allan, seibiant byr neu wyliau: **croesobaeabertawe.com**

**@baeabertawe**
**#LleHapus**

## Cludiant cyhoeddus

**www.nationalrail.co.uk**
**www.traveline.cymru**
☎ **0800 464 0000**

I gael gwybodaeth am fysus a thrafnidiaeth gynaliadwy o gwmpas yr arfordir:
**www.swanseabaywithoutacar.com**

DesignPrint 53008-22

# Llwybr Arfordir Gŵyr - Gorllewin

Allwedd i lwybrau troed trosodd







## Dod o hyd i'ch ffordd

Mae cyfeirbyst ar hyd Llwybr yr Arfordir sy'n defnyddio logo cragen ddraig wen ac arwyddbyst penodol i'r llwybr. Fodd bynnag, efallai byddwch am ddilyn ffordd arall ar hyd yr arfordir ar draws traethau neu ar hyd llwybrau eraill.

## Côd Cefn Gwlad

- **Cadwch gŵn ar dennyn wrth fynd yn agos at ddefaid, gwartheg neu adar sy'n bridio.**
- **Gadewch glwydi fel yr oeddent pan ddaethoch ar eu traws.**
- **Ewch â'ch sbwriel adref gyda chi.**

## Diogelwch

**Clogwyni** - Mae Llwybr yr Arfordir yn mynd yn agos at ymyl y clogwyn mewn sawl lle.

**ARHOSWCH AR Y LLWYBR er mwyn cadw'n ddiogel!**

**Llanwau** - Mae rhai rhannau o Lwybr yr Arfordir yn profi llanwau uchel. Cadwch lygad ar y llanw, oherwydd gall droi'n gyflym iawn yma. Mewn amgylchiadau eithafol, efallai bydd yn rhaid i chi aros nes bod y llanw'n treio; mewn sefyllfaoedd eraill, bydd modd i chi ddefnyddio llwybr arall.

Gwiriwch amserau'r llanw trwy ffonio Gwylwyr y Glannau ar:

☎ **01646 690909**

Neu fynd i:

**www.bbc.co.uk/weather/coast_and_sea/tide_tables**

**Ffyrdd** - Mae'r rhan fwyaf o Lwybr yr Arfordir yn dilyn llwybrau cyhoeddus tawel. Ond mae rhannau lle mae angen cerdded ar hyd ffyrdd heb balmant. Gofalwch wrth ddefnyddio'r rhannau hyn gan ei fod yn bosib nad yw gyrwyr yn gwybod eich bod yno.

**Dillad** - Rydym yn argymell eich bod yn gwisgo esgidiau a dillad sy'n addas i'r amodau rydych yn eu disgwyl ar Lwybr yr Arfordir ac ar gyfer adeg y flwyddyn.

**Argyfwng** - Os ewch chi i drafferth, ffoniwch **999** (neu **112** ar ffôn symudol) a gofyn am wylwyr y glannau. Sylwer bod signal ffôn symudol yn wael mewn rhai ardaloedd.

**Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael mewn fformatau gwahanol.**

E-bostiwch ✉ **tim.twristiaeth@abertawe.gov.uk**

Roedd yr wybodaeth yn gywir wrth fynd i'r wasg, Gorffennaf 2022

© Hawlfraint y Goron [a hawliau cronfa ddata] [2022] AO [100023509]. Arolwg Ordnans [100023509].